EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

Hydref 2023

## GAIR GAN Y GWEINIDOG :

Car dy gymydog

*“Rhyddid i wneud beth dw i eisiau,”* meddech chi. A dw i'n ateb, *“Dydy popeth ddim yn dda i chi.”* Er bod rhyddid i mi wneud beth dw i eisiau, dydy popeth ddim yn adeiladol. Ddylen ni ddim ceisio'n lles ein hunain, ond lles pobl eraill. **(1 Corinthiaid 10: 23 a 24)**

### RHYDDID A RHEOLAU

Mae’r Apostol Paul yn hoff iawn o drin a thrafod ac yn nifer o’i lythyrau mae’n helpu ei ddarllenwyr i feddwl eu ffordd drwy ddadleuon digon dyrys am y ffordd orau i fyw. Mae rhyddid y Cristion yn thema bwysig ganddo ond yn ei lythyr at y Cristnogion yng Nghorinth, mae’n dadlau bod angen dewis peidio arfer rhyddid personol er mwyn helpu pobl eraill. Ar adeg ysgrifennu’r llythyr, roedd rheolau’r grefydd Iddewig yn gwahardd nifer o fwydydd ond roedd y Cristnogion ar y llaw arall yn rhydd i fwyta beth roedden nhw’n dymuno. Beth felly ddylai’r Cristion wneud wrth rannu pryd o fwyd gydag Iddew? *“Fel Cristnogion”*, meddai Paul, *“er bod ganddoch chi’r rhyddid i fwyta popeth, fe ddylech chi ystyried lles pobl eraill wrth benderfynu beth i’w wneud.”* Dydy’r broblem am fwyta neu beidio bwyta pethau ddim yn codi yn ein plith ni'r dyddiau hyn ond mae’r egwyddor honno o roi lles eraill o flaen arfer ein rhyddid yn berthnasol iawn mewn dadleuon cyfoes.

### CYFYNGIAD CYFLYMDER





Cymerwch y drafodaeth sydd wedi codi dros yr wythnosau diwethaf am benderfyniad Llywodraeth Cymru i ofyn i’r Cynghorau i ostwng y cyfyngiad cyflymdra i 20 milltir yr awr mewn ardaloedd poblog o ddinasoedd, trefi a phentrefi. Mae rhai yn teimlo’n gryf iawn yn erbyn y ddeddf newydd yma ac wedi arwyddo deiseb i ysgogi trafodaeth lawn ar lawr y Senedd a dyna sut y dylai pethau weithio mewn gwlad ddemocrataidd. Gwaetha’r modd, mae eraill wedi gyrru negeseuon bygythiol a sarhaus at rai o aelodau’r Senedd sy’n siom i ni i gyd, dwi’n siŵr. Y ddadl anoddaf i’w derbyn ydy’r un sy’n dyrchafu hawliau a rhyddid gyrwyr fel unigolion

uwchlaw diogelwch ac iechyd y cyhoedd. Yn ystod y Pandemig fe gododd ymdeimlad cryf o ofal cymunedol. Fe wnaethom ni aros adre, diheintio'n dwylo, siopa mewn ffordd wahanol, cadw dau fetr oddiwrth bobl eraill ac wedi cael ein brechu'n gyson yn erbyn rhywbeth y gallech chi a fi wneud i arbed hyd yn oed un bywyd, roeddem yn barod i wneud hynny. Tybed a yw'r ymdeimlad cymunedol ar drai erbyn hyn?

**ARA DEG PIAU HI!**

Heddiw, mae na gyfle newydd i achub bywydau. Wrth gyfyngu ein gyrru i 20 milltir yr awr bydd hynny'n golygu llai o farwolaethau mewn damweiniau ffordd a llai o niwed i'r sawl gaiff eu taro gan gar. Mae na dystiolaeth bod ansawdd yr aer yn gwella wrth arafu hefyd sy'n newyddion da i gerddwyr o bob oed. Mewn dyfarniad hanesyddol yn ddiweddar, dyfarnodd Crwner mai ansawdd gwael yr aer oedd yn gyfrifol am farwolaeth plentyn mewn ardal o Lundain sydd wedi ein deffro ni i'r gwir am y llygredd mae ein ffordd o fyw yn ei greu. O hyn allan mi fydd yn rhaid gadael y tŷ yn gynharach i ganiatáu mwy o amser i gyrraedd pen ein taith. Beth am i ni roi dwywaith yr amser arferol i bob siwrne a mwynhau cyrraedd yn gynnar o dro i dro? Wrth weld yr arwyddion 20 milltir yr awr ac arafu fe fyddwch yn gwneud defnyddio'r heolydd yn fwy saff i bawb, a phwy a ŵyr – efallai mai chi fydd y cerddwr gaiff ei arbed drwy'r newid yma yn y ddeddf!

Ceri M Jones



## *Doctor, Doctor ...*

Yn ystod y seremonïau graddio yn y brifysgol eleni dyfarnwyd gradd doethuriaeth er anrhydedd i'n hysgrifennydd, Gareth Ffowc Roberts, i gydnabod ei gyfraniad i addysg uwch ym Mangor a'i waith yn poblogeiddio mathemateg.

*Llongyfarchiadau mawr iddo.*

## OEDFAON
## A CHYFARFODYDD HYDREF

**Bore Sul, 1 Hydref**
Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog

**Bore Sadwrn, 7 Hydref**
10am tan hanner dydd
Bore Coffi Masnach Deg

**Bore Sul, 8 Hydref**
Oedfa Diolchgarwch pob oed
dan arweiniad y gweinidog

**Pnawn Mawrth, 10 Hydref**
3pm tan 4pm
Cyfarfod **'paned a sgwrs'**

**Bore Sul, 15 Hydref**
Oedfa Genhadol
dan arweiniad Siân Arwel Davies
ac Eleri Lloyd Jones

**Bore Sul, 22 Hydref**
Oedfa dan arweiniad y gweinidog

**Bore Sul, 29 Hydref**
Oedfa dan arweiniad Bill Davies,
Llywydd Undeb y Bedyddwyr

## CLEIFION

**Anfonwn ein cofion at holl aelodau'r eglwys sydd wedi bod yn anhwylus.**

***Treiliodd Olwen Davies gyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae hi'n well erbyn hyn ac yn ôl ym Mhlas Garnedd, Llanfairpwll.***

**Bu Rhys Llwyd yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.**

***Mae Ann Morgan, Porthaethwy, yn dal yn Ysbyty Penrhos Stanley.***


**Ar ôl rhai wythnosau yn Ysbyty Gwynedd mae Sara Thomas, mam Casi, wedi cael mynd adref.**

***Mae Mavis, gwraig Gareth Jones, yn gwella ar ôl cael clun newydd.***

**Cofiwn am Eirwyn a Nancy wrth iddynt barhau i wynebu salwch Nancy gyda dewrder a dyfalbarhad.**


### MEWN CARTREF GOFAL

***Anfonwn ein cofion at Richard Gwynedd Roberts a Iola Griffiths yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli ac at Enid Owen yng Nghartref Merton Place, Bae Colwyn.***




## Y CYLCH DARLLEN

Bydd y cylch darllen
yn ailddechrau cyfarfod yn Emaus
ddydd Gwener 6 Hydref
am 2 o'r gloch.
Y nofelau i'w trafod fydd
**Hallt** ***gan Meleri Wyn James***
a **Gwynt y Dwyrain** ***gan Alun Ffred***,
sef nofelau yr eisteddfod.
Mae croeso i aelodau hen a newydd.




Peidiwch a meddwl ein bod yn griw academaidd iawn,
dim ond rhai sy'n mwynhau darllen a sgwrsio ydyn ni!

***Cathrin Williams***

## DARLITH GOFFA LLOYD JONES



**Roedd nifer o aelodau Emaus yn bresennol yn Eglwys Clynnog un noson braf o haf mewn gwasanaeth i gofio Lloyd Jones, gŵr Casi ein gweinidog, ac i ddiolch am ei gyfraniad unigryw yn ystod ei gyfnod fel ficer yn yr eglwys. Soniwyd am y gefnogaeth arbennig a roddodd i aelodau'r eglwys ac i'r gymuned yn ehangach. Crybyllwyd ei gysylltiad agos â'r ysgol gynradd leol. Dangoswyd dro ar ôl tro pa mor werthfawrogol oedd y gymuned yng nhyffiniau Clynnog o'r gwaith a lwyddodd Lloyd i'w gyflawni yn eu plith - a'r hiraeth sydd yn yr ardal am berson mor afieithus, hoffus ac ymroddgar.**

**Yna cafwyd sgwrs gan y Parchedig Siôn Brynach, a oedd yn adnabod Lloyd yn dda, ynglyn â'i weledigaeth wrth ddechrau ar ei waith fel prif weithredwr Cytun.**

Cynhelir
y bore coffi
Masnach Deg nesaf
dydd Sadwrn
Hydref 7fed,
o 10 - 12 o'r gloch.

Bydd ychydig
o nwyddau newydd ar gael,
ac mae Wes yn gobeithio paratoi
ei stondin Nadolig arferol.

*Edrychwn ymlaen at eich gweld.*

Diolch
Catrin



## B L O D A U

Diolch i
Jennifer Thomas
a Glenda Roberts
am ofalu bod blodau
ar gyfer oedfaon Mis Awst
ac i
Delyth Murphy a Glenda Jones
am roi'r blodau
yn ystod Mis Medi.

### MIS HYDREF

| | |
|---|---|
| Hydref 1 ac 8 | Delyth Williams |
| Hydref 15 a 22 | Elen Lansdown |
| Hydref 29 | Jennifer Thomas |

*Diolch i bawb
sydd wedi rhoi blodau hyd yma.
Mae'r rhestr ar gyfer gweddill
2023 yn llawn.
Fe fydd rhestr ar gyfer 2024
ar gael ddechrau mis nesaf.*

*Diolch
Kath a Meriel*

Dydd Gwener, Medi 15fed cynhaliwyd cyfarfod yn festri Eglwys Cyngar Sant, Llangefni pryd y cafwyd trosolwg o waith yr elusen a lluniau o blant yn derbyn y bocsys yn Wcrain, Rwmania, Bosnia, Moldova a Georgia. Mae llawer o blant Wcrain wedi gorfod ffoi trwy Rwsia i gyrraedd Georgia. Gellir dychmygu'r trawma maent wedi mynd trwyddo. Roedd un ferch fach yn beichio crio ar ôl cael pêl tenis yn ei bocs. Roedd hi mor hapus oherwydd ei bod yn hoff iawn o'r gêm ac wedi gorfod gadael ei pheli ar ôl. Roedd y gwirfoddolwyr *(yn cynnwys Eirwyn Vaughan – ein cyswllt yma yn Emaus)* wedi gwirioni wrth weld lluniau'r plant ysgol o dan y teitl **"Heddwch"** yn cael eu harddangos y tu allan a chyfareddwyd hwy wrth wrando ar blant Rwmania yn canu eu caneuon traddoliadol.

Cafodd Dave *(sefydlydd y cynllun Bocs Sgidiau gwreiddiol)* grant o £250,000 gan Senedd Cymru a defnyddiwyd yr arian i osod tap dŵr mewn pentrefi yn Uganda. Sylw un ferch oedd fod rhaid iddi ddysgu sut i droi'r tap ymlaen! Daeth gwraig 50 oed atynt yn Liberia i ofyn oedd modd iddynt adeiladu toiledau mewn ysgolion ar wahan gyda gofod preifat i fechgyn a'r merched. O ganlyniad i hyn mae 80% mwy o ferched yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Sefydlwyd prosiect yn Sierra Leone i gynhyrchu Olew Palmwydd Masnach Deg er mwyn dysgu sgiliau i ferched ifanc a oedd ar y strydoedd.

Cawn gyfle eto eleni i lenwi bocs sgidiau gyda nwyddau ar gyfer plant sydd yn byw yn Rwmania, Bosnia, Georgia, Moldova, ac Wcrain. Bydd bocsys pwrpasol fflat a thaflen gwybodaeth ar gael yn y cyntedd yn ystod mis Hydref. Os dymunwch, gallwch nodi os ydych am i'ch rhodd ychwanegol gael ei glustnodi ar gyfer un o'r prosiectau uchod. Cesglir y bocsys ddydd Sul, Tachwedd 5ed er mwyn eu trosglwyddo i Ysgol David Hughes ar gyfer eu casglu ar Tachwedd 10fed.

***Sian Arwel Davies***



Eirwyn Vaughan yn dosbarthu


Y plant y barod i ganu

## CYDYMDEIMLO

**Cydymdeimlwn yn ddwys â rhai o'n haelodau a gollasant anwyliaid yn ddiweddar.**

**Bu farw tad Arwel Owen, sef Gwynfor Owen, yn ystod yr haf.**

**Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu farw chwaer Eirwyn Morris, yn dilyn cyfnod byr iawn o salwch.**

# CYNHADLEDD DDWYIEITHOG FLYNYDDOL CHWIORYDD CYMRU

Roedd y tywydd yn wych o braf yn Llambed ar gyfer **Cynhadledd Senana Cymru**. Roedd yn braf cwrdd â hen ffrindiau – Ann Morgan fu'n aelod ffyddlon yn Penuel ac eraill o wahanol rannau o Gymru. Yn anorfod gwelsom eisiau rhai fu'n ffyddlon i'r gynhadledd ond yn methu bod yn bresennol eleni oherwydd anhwylder ac amgylchiadau teuluol.

Dechreuwyd y gweithgareddau Nos Fawrth gyda noson ddifyr yng nghwmni Menna Machreth, y Llywydd a'i ffrindiau. Llywyddwyd gweithgareddau dydd Mercher a Iau yn ddyheig gan Menna ac 'roedd Suzanne Roberts, yr Ysgrifennydd wedi trefnu'n fanwl, Eleri Lloyd Jones, yr Is-ysgrifenydd yn cynorthwyo drwy gynnal siop nwyddau Masnach Deg a Hazel Williams Jones, y Trysorydd yn gofalu am yr arian. Cynorthwyodd nifer o'r chwiorydd drwy arwain defosiwn boreuol a hwyrol neu grŵp trafod.

Arweiniwyd yr astudiaeth feiblaidd bore Mercher a Iau gan y Parchg. Siân Elin Thomas a chafwyd sesiynau bywiog a gwahanol a'n hannog i ddarllen y gair yn unol â'r dull ***Lectio Divina***. Yna 'roeddem yn mynd i'n grwpiau a myfyrio ar y cwestiynau a'r darluniau baratowyd. Y darn eleni oedd hanes Iesu yn ymweld â Mair a Martha a hefyd yr ymweliad ar ôl marw Lazarus. Gofynnwyd i bob un ohonom benderfynnu â pha chwaer oeddem yn uniaethu. Roedd ymwyafrif ohonom yn uniaethu gyda'r ddwy ar wahanol adegau.

Cawsom gwmni Joy, o Dumfries, fu'n gweithio yn y maes cenhadol yn Nepal am 38 mlynedd ac wedi treulio'r pedair blynedd ddiwetha' yn hyfforddi athrawon mewn mannau diarffordd o Nepal. Roedd ei mam Audrey wedi teithio gyda hi yn gwmni. Dymunwyd yn dda i Joy ar ei hymddeoliad a rhoddwyd diweddariad o weithgareddau'r BMS gan Suzanne. Yr Athro Densil Morgan oedd yn arwain yr oedfa gymun ar y nos Fercher a chytunwyd ei fod wedi creu awyrgylch arbennig a bendithiol iawn.

Cafwyd amser i gymdeithasu a dal i fyny gyda hen ffrindiau a gwneud rhai newydd dros baned yn **Caffi yr Hedyn Mwstard**. Mae cael paned yno wedi mynd yn dipyn o draddodiad erbyn hyn ar y pnawn Mercher. Roedd yna dipyn o gynnwrf hefyd ganol y nos Fawrth pan ddeffrowyd pawb gan y larwm tân a bu raid tyrchu allan i'r nos am tua chwarter awr. Roeddem i gyd yn falch o ddeall nad oedd unman ar dân a chawsom ddychwelyd i'n ystafelloedd i geisio ailafael yn ein cwsg! Erbyn y pnawn Iau pan oedd pawb yn cychwyn am adre ar ôl amser prysur iawn, y farn oedd ein bod wedi cael cynhadledd gwerth chweil ac roedd yn dda bod yno.

*O.N.* Efallai mai priodol yw rhoi esboniad byr o'r gair **"Senana"/"Zenana"**.

Ystyr llythrennol yw **'gwragedd neu perthyn i wragedd'**. Roedd rhan o'r tŷ a berthynai i deulu Mwslemaidd, Sikhaidd neu Hindwaidd yn India wedi'i neilltuo ar gyfer eu teulu – chwiorydd, modrybedd, cyfnitherod, gweddwon yn ogystal â'r harîm. 'Roedd gan bob un stafell iddynt eu hunain. Gallai fod hyd at bum mil o ferched os oedd y pen teulu yn gyfoethog iawn!
Roedd gweithwyr cenhadol, benywaidd oedd wedi hyfforddi i fod yn feddygon a nyrsus yn gallu dod i gysylltiad â'r merched yma a rhoi gofal iechyd ac efengylu iddynt a thrwy hynny yn gallu dylanwadu er gwell.

***Siân Arwel Davies***



Yn y llun, gwelir Joy a'i mam
ynghyd ag un neu ddwy o wynebau cyfarwydd arall!




Yn y llun, gwelir Joy
yn ei chyn gartref yn Nepal.

## DATHLIADAU PRIODASOL



**Bydd Glenys ac Idris Owen
yn dathlu carreg filltir
go arbennig yn eu hanes
Hydref 5.**

**60 mlynedd o fywyd priodasol.
Priodwyd y ddau
yng nghapel Bethel** (Bedyddwyr)
**Caellwyngrudd, Rachub
gan y Parchedig Handel D. Turner.**

*Pob hwyl i'r ddau.*

*Dathlodd
Olwen a Dewi Davies
67 o flynyddoedd
o fywyd priodasol
yn ddiweddar
Llongyfarchiadau
mawr iddynt*

Profodd Hawys a Rich gyfnod hapus o ddathlu eu priodas hwythau mewn priodas fach anffurfiol ym Mhlas Brondanwg ar ddechrau mis Awst, gyda phicnic i'r criw bach yn y gerddi wedyn. Ar ôl hynny, buon nhw'n croesawu eu ffrindiau a'u teulu i ymuno gyda nhw yn ystod y dyddiau oedd yn dilyn ar draeth Llanddwyn, ac roedd rhai hefyd yn mentro gwersylla gyda nhw mewn maes pebyll gerllaw.
Erbyn hyn, mae Hawys, Rich a'r plantos bach wedi ymgartrefu yng Ngharmel, sy'n ddigon agos i nain a taid - sef Jill a Hywel Tomos ymweld â nhw.

*Gan iddi gael ei magu nepell o gae'r Eisteddfod ym Moduan bu mynychu'r digwyddiad yn siwr o fod yn brofiad arbennig iawn i Catrin a'i theulu.*

## ARGRAFFIADAU O EISTEDDFOD BODUAN 2023

Rhwng y cystadlu, yr urddo a'r gweithgareddau eraill ar hyd a lled y maes, bu'n wythnos lawn a chyffrous dros ben!

Er gwaetha'r glaw enbyd ar y dydd Sadwrn cyntaf, roedd derbyniad twymgalon iawn ym mhabell Encore i berfformiad Morgan ar y trombôn a'i nain Valerie'n cyfeilio iddo ar y piano. Roedd talentau ifanc lleol Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn yn cymryd rhan, ac roedd dehongliad y ddau o'r Acrobat yn gampus! Bu Aron hefyd yn chwarae'r cornet gyda Band y Borth, a ddaeth yn ail yng nghategori'r Bandiau Dosbarth 4. Ar y dydd Sul, daeth Band Pres Hŷn y Gwasanaeth Cerdd yn ail yng nghystadleuaeth y Bandiau Ieuenctid, felly roedd hi'n benwythnos prysur iawn i'r offerynnau pres!



Trwy gydol yr wythnos roedd cyfle i weld gallu creadigol Meriel, Jennifer a Iona, Cangen Merched y Wawr Bangor ym Mhabell Merched y Wawr, a chafwyd croeso cynnes i Glenda, Cangen Merched y Wawr Penrhosgarnedd, fel Llywydd Rhanbarth Arfon o'r mudiad. Roedd sawl un ohonom yn bresennol i gefnogi ein cyfaill y Parchedig Eric Jones a lansiodd gyfrol o'r enw **'Cysuro'r Claf'** ym mhabell Cytun, yn sgîl ei waith fel caplan yn Ysbyty Gwynedd.

Cefais innau anrhydedd o'r mwyaf o gael fy urddo i'r Orsedd ddiwedd yr wythnos. Ar ei ffordd i fynychu'r digwyddiad hwnnw, cafodd Anwylyd ddamwain gan anafu ei chefn. Mae'n dal i wella ar ôl yr anffawd a dymunwn yn dda iddi, gan obeithio bydd yn ddi-boen yn fuan iawn.

*Catrin Elis Williams*

## SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Esyllt Bryn ar gael ei hapwyntio i swydd llawn amser yn cefnogi ffoaduriaid gyda Cyngor Gwynedd.

Mae Esyllt a'i gŵr wedi rhoi oriau dibendraw i wirfoddoli efo ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn yr ardal hon dros y blynyddoedd diwethaf sy'n ei gwneud hi'n berson cwbwl addas i'r gwaith yma.

## GWERTHFAWROGIAD GAN OLYGYDDION Y MIS.

***Hoffem ddiolch i Casi am ei hynawsedd a'i brwdfrydedd - a'i chonsyrn amdanom fel aelodau. Gwerthfawrogwn y neges amserol a phwrpasol a baratoir ganddi o Sul i Sul.***

***Gwerthfawrogwn yr holl waith a gaiff ei gyflawni gan Gareth Ff. Roberts, ein ysgrifennydd a David Ll. Jones ein trysorydd.***

***Hoffem ddiolch i'r swyddogion ac eraill o'n haelodau sy'n rhoi cymaint o'u hamser i'n galluogi i fwynhau'r profiad o fod yn rhan o deulu Eglwys Emaus.***

*Ann a Gareth Roberts.*



## PRIODAS

Llongyfarchiadau mawr i Merynne Roberts,
merch Glenda Roberts Stryd y Deon
ar ei phriodas efo Jonathan Jones
o Gaernarfon.
Cynhaliwyd y briodas ddydd Sul, Awst 20ed
yn Henblas, Bodorgan.
Fe gawson nhw ddiwrnod i'w gofio
ymhlith teulu a ffrindiau,
ac yna treulio eu mis mêl yn Sorrento.
Hoffai Merynne ddiolch yn fawr
i aelodau Emaus
am anfon negeseuon ac am eu caredigrwydd.
Mae Merynne yn athrawes yn Ysgol Hirael,
tra bod Jonathan yn dysgu
yn Ysgol y Graig, Llangefni.
Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r pâr priod.

## GWIRIONI AR YR WYRION

Gofynnwyd i mi ysgrifennu ychydig o eiriau am yr wyrion ac wrth gwrs mae'r rhain yn ran pwysig iawn o'n teulu ni. Mae Ieuan a minnau wedi bod yn ffodus iawn i fod yn byw reit agos i'r teulu ac felly wedi cymeryd rhan yn eu datblygiad ym mhob ffordd.

Mae Gwenllian, yr hynaf, Rhianwen ag Ifan wedi bod yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Bethel ac yna yn Ysgol Gyfun Brynrefail, Llanrug. Roedd dyddiau yr ysgol yn rhai hapus dros ben i'r tri a mae hynny wedi cael dylanwad ar eu datblygiad.

Pan yn son am yr wyrion, rhaid son am eu diddordebau allanol. Dechreuodd Gwenllian ddysgu karate pan tua wyth oed ac mor awyddus i lwyddo fel ei bod wedi cael y 'Belt Du' pan yn ei harddegau cynnar. Mae hi wedi bod yn dysgu karate i'r criw ifanc yn Llanberis ers sawl blwyddyn.

Mae'r gamp yma wrth gwrs yn rhoi hyder, hunan ddisgyblaeth a hunan barch i'r unigolyn.

Mi wnaeth Gwenllian hefyd gael llwyddiant gyda chwarae ffliwt, gan gyrraedd safon wyth gyda chymorth Mrs Valerie Ellis.



Y TEULU YN Y GAER WEN, CAE METTA

Mi ddilynodd Ifan Gwenllian, drwy gael hyfforddiant karate yn Llanberis a mae yntau wedi cyrraedd safon y ‘Belt Du’ ac yn mwynhau’r ddisgyblaeth a’r manteision i’r corff, heblaw datblygu hunan hyder.

Nid oedd Rhianwen yn awyddus i ddechrau ar y karate. Dechreuodd hi fanteisio ar y cyfle i ddechrau gwersi piano a hefyd y clarinet. Ar ôl ychydig o flynyddoedd o hyfforddiant, y piano wnaeth ennill y dydd. Mi wnaeth hi gwblhau ei arholidadau gradd wyth, cyn dechrau ar ei arholiadau allanol yn yr Ysgol, sydd wrth gwrs yn holl bwysig!!

Mi aeth hi ymlaen o Ysgol Brynrefail i Brifysgol Caerdydd i astudio’r Gymraeg a Hanes. Yn dilyn amser anodd iawn yn ystod y cyfnod clo, mi wnaeth hi raddio gydag anrhydedd. Aros yng Nghaerdydd wnaeth Rhianwen i wneud MA yn y Gymraeg ag Astudiaethau Celtaidd. Cafodd hwyl ar y gwaith gan gyrraedd safon anrhydedd eto. Yn wir, roedd hi wrth ei bodd clywed ei bod wedi ennill gwobr Sioned Davies am y traethawd gorau yn ei blwyddyn Coleg. Heddiw, mae Rhianwen yn gyflogedig gan **‘Gyngor Rhondda Cynon Taf’.**




IFAN EFO TYSTYSGRIF KARATE

Mae hi yn gyfeithydd a hefyd yn rhan o’r tim sydd yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2024. Mae hi yn byw yn ‘Y Bae’ yng Nghaerdydd, ac yn medru teithio i’r Fro i gael cinio dydd Sul gan ei ewythr! Mae Dylan y mab yn byw yn Llanfaes, sydd ger Llanylltud Fawr er bod ei waith fel Ymgynghorydd yn Abertawe.



RHIANWEN GYDA’I CHACEN PENBLWYDD

– I RHIANWEN –

Cydymaith academig, – yma radd
ymroddiad arbennig;
hybu’r iaith, mae’n euro’r brig –
nwyd ydyw, mor nodedig.

BRYNDEWI,
LLANGRANNOG

JON MEIRION

ENGLYN WNAETH FY MRAWD JON
I RHIANWEN AR ACHLYSUR IDDI
DDERBYN EI GRADD



GWENLLIAN A NAIN YN MYND AM DRO

Mae Gwenllian hefyd yn symud tua'r de ac yn ymuno gyda'r myfyrwyr yn yr Ysgol Feddygol yng Nghaerdydd i astudio meddygaeth. Mae'n siwr y bydd y profiad o radd mewn *'Medical Science'* a gradd Meistr mewn *'Cydymaith Meddygol'* yn fantais iddi. Mae hi yn awyddus i ddechrau ac wrth gwrs, bod yng Nghaerdydd! Gwenllian sydd wedi bod yn barod i helpu a gwarchod pawb yn y teulu beth bynnag y sefyllfa. Mae hi yn berson cryf a dibynadwy, a mi fyddwn yn colli ei chymorth a'i thalent mewn amryw o ffyrdd.

Mae Ifan wedi dechrau ar ei yrfa newydd yng Ngholeg Menai ac er fod pêl-droed yn dal y peth mwyaf pwysig sydd yn ei fywyd mae wedi sicrhau mi y bydd o ryw ddiwrnod yn adeiladwr! O leiaf mae yna siawns y bydd ganddo fodd i gynnal ei hyn ac wrth gwrs bod yn hapus yn ei waith. Mae Ifan yn hoff iawn o gyfarfod pobl ac yn hynod o siaradus a chwrtais. Mae Ifan a'r ddwy chwaer newydd dreulio pum niwrnod yn Madrid. Mi gafwyd amser da gyda thywydd poeth a chyfle i flasu bwydydd Sbaeneg. Roedd y gwyliau yn llwyddiant a braf oedd cael cyfle i ymlacio ac anghofio pwysau'r byd am wythnos.



GWENLLIAN YN GRADDIO

Wel, rhaid dweud mai pleser pur oedd helpu'r criw bach yma i ddilyn ffordd a sydd hyd yn hyn wedi bod yn llwyddiant. Mae'r seiliau wedi eu gosod, felly ymlaen â nhw.

*Anwylyd Wyn Jones*

**Llun ychwanegol o'r merched gyda eu ewythr T Llew Jones.**




***Roedd wrth ei fodd***
***yng nghwmni plant,***
***a'r plant wrth eu bodd***
***yn ei gwmni hudolus yntau***

*…… fel y clywsom gan Anwylyd yn yr erthygl flaenorol - mae cwmni'r wyrion yn dod a phleser di-ben-draw i'r neiniau a'r teidiau.*

*Ond wrth gwrs dydy wyrion pawb ddim yn byw'n agos.*

*Dychmygwch y wefr a brofodd Nia a Dewi Llwyd yr haf yma wrth gofleidio'u hŵyr bach, Idris, am y tro cyntaf un ac yntau wedi trafaelio efo'i rieni Owain ac Emma a'i chwaer fawr Betsan yr holl ffordd o Dubái.*




## YCHWANEGIADAU I'R PYTIAU O'R EISTEDDFOD



**NIA LLEWELYN JONES**

### WYTHNOS I'W CHOFIO

Cafodd Caí Fon, mab Bryn ac Ann Davies wythnos i'w chofio ym Moduan gan gipio sawl gwobr. Yn eu plith enillodd y wobr gyntaf ar y llefaru unigol yn cyflwyno gwaith Gwyn Thomas-Croesi'r Traeth. Yna, yn goron ar y cyfan enillodd wobr Richard Burton.

### WRTH EI BODD

Ein dymuniadau gorau i Nansi, merch Julie a Rhodri Gray, wrth iddi ddechrau ar ei phrentisiaeth yn siop trin gwallt **Urban M** ym Mangor.




Mae hi wrth ei bodd yn y gwaith ac yn treulio cyfnod bob wythnos yng Ngholeg Menai. Mae ei Nain, Mair Gray, yn disgwyl yn eiddgar am ei sylw!




### PANED A SGWRS.

Croeso i bawb ddod i festri Emaus ar yr ail bnawn Mawrth o'r mis rhwng 2-3 o'r gloch.

*Mae'r sgwrs wastad yn felys uwch baned o de.*

### DIOLCH

*Hoffwn ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd i ni fel teulu gan aelodau Emaus a ffrindiau ar golli fy annwyl chwaer, Marsli.*

- Eirwyn Morris

## PYTIAU O’R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YM MODUAN

• Mwynhaodd lawer o aelodau Emaus eu hymweliad â maes yr Eisteddfod. Rhaid cyfaddef ei bod hi’n anodd rhagori ar y lleoliad cyfareddol ym Mhen Llŷn.

• Cofiwn am yr amrywiol weithgareddau a gynhaliwyd yn ardal Bangor i gefnogi’r Eisteddfod a llwyddwyd i godi swm sylweddol o arian. Bryn Tomos, gŵr Marian, oedd trysorydd y Pwyllgor Apêl a Catrin Elis Williams oedd yr ysgrifennydd.

• Gwelwyd nifer o’n haelodau yn cystadlu ar lwyfannau’r Brifwyl mewn gwahanol gorau - Côr Meibion y Penrhyn, Côr Encôr i rai dros 60 oed, Côr Llechen Lan, côr i bedwar llais-sef cyfuniad o Gôr Seiriol a’u harweinydd Gwennant Pyrs a Chôr y Brythoniaid dan arweiniad John Eifion.

• Profodd Alys, a’i chwaer fach Mati, merched Branwen Niclas, lwyddiant eithriadol yn canu yng Nghôr Ieuenctid Môn.

• Mab yng nghyfraith Delyth a Dafydd Murphy, Aled, oedd arweinydd buddugol y côr Meibion buddugol.

• Cafodd Aaron Ellis Williams hwyl ar berfformio

• Bu eraill o’n haelodau yn brysur yn gwirfoddoli mewn pebyll ar y maes. Gweini paneidiau o de a theisennau cri ym mhabell Merched y Wawr oedd gwaith Jennifer Thomas a Iona Wyn Jones.

• Gwahoddwyd Nia, merch Delyth a David Lloyd Jones, trysorydd Emaus i fod ar banel i feirniadu’r corau. Cafodd hi wythnos ryfeddol o brysur. *(Gweler llun ar dudalen 12)*

• Bu Nia Llwyd yn beirniadu darn o ryddiaith i ddysgwyr.

• Canwyd un o emynau Casi ar y nos Sul dan arweinyddiaeth Pat Jones.

• Cyd-gadeirio cyfarfod efo Elan Closs Stephens, pennaeth dros dro y BBC ym mhabell y Cymdeithasau oedd un o dasgau Dewi Llwyd ar y maes.


## DYMUNIADAU DA

*Llongyfarchiadau a’n dymuniadau gorau*
*i Nia Llwyd*
*ar ddathlu ei phenblwydd yn 70 oed*

## CYSURO’R CLAF

Dr John Tudno Williams, Aberystwyth,
yn llongyfarch y Parchg Eric Jones
ar lansiad ei lyfr **Cysuro’r Claf**
ym Mhabell Cytûn ar faes
yr Eisteddfod Genedlaethol.




## *CARTREF NEWYDD*

Dymunwn yn dda i Catrin, Siôn
a Branwen Alys yn eu cartref
ym Mhenrhosgarnedd.
Mae Catrin yn ferch i Marian a Bryn Tomos.

# CORNEL POSAU GARETH


**ATEB I BOS AWST/MEDI 2023**

## POS YR EISTEDDFOD


***Gwerth CADAIR yw 90***

**POS HYDREF 2023**
**POS CYRRAEDD YSGOL**

Mae Aled a Beth, brawd a chwaer, yn byw yn  y dref ac yn cerdded i'r ysgol bob bore ar hyd pum stryd




Dyma un ffordd y gallant gerdded :



Sawl dewis pum stryd arall sydd ganddynt i gyrraedd yr ysgol

BYDD YR ATEB YN RHIFYN TACHWEDD

## CARTREF NEWYDD

Croeso i Nathan a Shona i'w cartref newydd ar Ffordd Penrhosgarnedd. Mae'r teulu wedi symud o Northwich ddechrau'r haf.

Efallai i rai ohonoch gofio Shona pan fyddai'n dod i'r oedfaon ym Mhendref gyda Wil a Meriel, ac yn mynychu'r ysgol Sul yn rheolaidd.

Ganwyd Efan ym mis Gorffennaf ac mae Erin ei chwaer fach wedi dotio gyda'i brawd. Mae Erin wedi dechrau yn Ysgol Feithrin Y Garnedd ac yn methu deall pam fo rhaid galw Llinos yn Mrs Davies!

Bu'r teulu'n byw yn Nhregarth gyda Llinos am wythnosau cyn iddynt allu symud i'w cartref newydd.

Mae Wil a Meriel wrth eu bodd yn cael y teulu'n agos.



**DYMA ERIN YN MAGU EI BRAWD BACH**



## NOSON I'W CHOFIO

Mae'n debyg bod sawl un o'n aelodau yn mwynhau gwylio rhai o gyngherddau'r Proms o'r Albert Hall yn Lundain ar y sgrîn fach neu wrando arnynt ar y radio.

Efallai i ambell un yn ein plith fod yn ddigon ffodus i gael mynychu un ohonynt fel y gwnaeth Helen a Gwilym Owen.

Ond dychmygwch eu balchder wrth iddynt gyrraedd y neuadd fawr y noson honno a gweld eu mab Gwyn, y trympedwr disglair, yn camu ar y llwyfan yn aelod o'r gerddorfa.

Gwahoddwyd Gwyn i fod yn rhan o gerddorfa Aurora yr haf yma. Bu efo'r criw i Hamburg a Helsinki ac i ambell i leoliad arall cyn cyrraedd yr Albert Hall. **"Right of Spring"** gan Stravinsky a ddewiswyd. Darn heriol iawn a greodd dipyn o gyffro pan y'i perfformiwyd gynta erioed ym Mharis, flynyddoedd yn ôl.

Safai aelodau'r gerddorfa ar eu traed drwy gydol y perfformiad a chwaraeai pob un ar eu cof, heb gopi.

Rhoddwyd perfformiad gwefreiddiol gan Gerddorfa Aurora y noson honno - fel bod un colofnydd blaenllaw ym mhapur y Sunday Times wedi cyfeirio ato fel *un o'r Proms gorau erioed.*



*GWYN OWEN A'I DRWMPED*



**LLWYDDO**

**Llongyfarchiadau i Luned, merch Arwel a Lleucu Owen**
**ac i Guto Ellis, mab Lowri a Llion Ellis ar eu llwyddiant yn yr arholiadau Lefel A.**

**Dewisodd Luned astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.**

**Bydd Guto yn trafeilio ychydig ymhellach - i'r UCL yn Llundain**
**i astudio Archaeoleg - ar ei faglau gan iddo dorri asgwrn yn ei goes**
**wrth chwarae pêldroed i'r Felinheli ym Mhenarlâg -**
**yn yr amser ychwanegol a ganiatawyd ar ddiwedd y gem.**

***Pob hwyl i'r ddau ohonoch ar ddechrau cyfnod mor gyffrous yn eich bywydau***

# CLWB Y GARNEDD
# PENRHOSGARNEDD
## Rhaglen 2023-2024

**CAE GARNEDD, PENRHOSGARNEDD**

**4ydd DYDD MERCHER o bob mis 2:00 - 4:00**

**Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.**

| | |
|---|---|
| 27-09-2023 | Band Ukelele Caergybi |
| 25-10-2023 | Castle Players a Steve Lansdown - Cider with Rosie |
| 22-11-2023 | Y Parchedig Gwyndaf - Hanesion ysgafn |
| 20-12-2023 | Parti Nadolig a chor plant Ysgol y Garnedd |
| 24-01-2024 | Menna - Yr oes a fu |
| 20-02-2024 | Anwen - Troedio Reflexology |
| 27-03-2024 | Norman Evans |
| 24-04-2023 | Edwin Thomas - Canu |
| 22-05-2024 | Cadi Iolen - Amgueddfa Llechi Llanberis |
| 26-06-2024 | Syrpreis diwedd tymor ???? |

***Cysylltwch ag Enyd  01248 370377***
***CLWB Y GARNEDD, PENRHOSGARNEDD***

# CYFEIRIADUR EMAUS

**ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:**
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

**BMS:**
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

**CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**GWEINIDOG:**
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

**MASNACH DEG:**
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

**NEGESYDD – CYSODI:**
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

**NEGESYDD – ROTA GOLYGU:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

**PANED A SGWRS**
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

**ROTA BLODAU**
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

**ROTA'R ORGAN:**
Enid Griffiths
712726

**SWYDDOG DIOGELU:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**TI A FI:**
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

**TRYSORYDD:**
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

**YSGRIFENNYDD ARIANNOL:**
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

**YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:**
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243